



CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

DYDDIAD 19 GORFFENAF 2023

PWNC

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo diweddariad i'r:

- **Polisi Risg Hinsawdd**
- **Polisi Pleidleisio (*Polisi Stiwardiaeth*)**

Nodi'r diweddariad cynnydd Blynyddol ar Fuddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd

RHESYMAU:

Cymeradwywyd y Polisi Risg Hinsawdd gan y Cydbwyllgor ym mis Gorffennaf 2020, y Polisi Pleidleisio ym mis Rhagfyr 2020, ac fe adolygwyd y ddau bolisi ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2022. Mae adolygiad blynyddol o'r polisïau hyn wedi cael ei gynnal ac mae angen i'r CBLI gymeradwyo'r polisïau sydd wedi'u diweddarau.

Hefyd, mae Hymans wedi cynnal adolygiad o'r gwaith a wnaed yn unol â'r ymrwymïadau a nodir yn y Polisi Buddsoddi Cyfrifol a'r Polisi Risg Hinsawdd ac maent wedi darparu adroddiad sy'n rhoi asesiad o'r cynnydd y mae'r Bartneriaeth wedi'i wneud yn ystod y 12 mis hyd 31 Mawrth 2023 a'r meysydd a fwriedir ar gyfer ffocws yn y dyfodol.

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn 01267 224160

E-bost:
CMoore@carmarthenshire.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 19 GORFFENAF 2023

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (y Bartneriaeth) wedi cymeradwyo sawl polisi / cynllun gaiff eu hadolygu yn flynyddol. Y chwarter hwn, mae'r GS wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r:

- Polisi Risg Hinsawdd
- Polisi Pleidleisio (*Polisi Stiwardiaeth*)

Mae'r Polisi Risg Hinsawdd yn nodi dull y Bartneriaeth o ran ymdrin â gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol mewn perthynas â risgiau sy'n ymwneud â hinsawdd a monitro'r risgiau hynny. Mae'r GS wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r polisi hwn ac wedi addasu'r polisi i fod yn unol â nodau cytundeb Paris (pwynt 28).

Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y CLI i'r Bartneriaeth fabwysiadu Polisi Pleidleisio Robeco. Mae'r polisi hwn wedi cael ei adolygu gan yr is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol a chynigir bod y Bartneriaeth yn parhau i fabwysiadu Polisi Pleidleisio Mewnol Robeco. Mae Robeco yn adolygu a diweddarau eu Polisi Pleidleisio yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cynrychioli ei arfer gorau dilynol ac mae'r Gweithgor Swyddogion yn credu fod yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori ym Mholisi Pleidleisio Mewnol Robeco yn adlewyrchu'n briodol ar amcanion y Bartneriaeth. Ym mis Gorffennaf 2022, datblygwyd polisi pleidleisio "PPC penodol", gan nodi polisi'r Bartneriaeth ar bleidleisio drwy ddirprwy. Bellach, mae'r polisi hwn wedi cael ei ddiweddarau fel Polisi Stiwardiaeth cyffredinol i roi gwell adlewyrchiad o nodau ac arferion stiwardiaeth PPC (pleidleisio ac ymgysylltu), gan gynnwys datblygu polisi esgoli, pan fo ymgysylltiad uwch wedi methu.

Hefyd, mae Hymans wedi darparu adroddiad diweddarau yn asesu'r cynnydd y mae'r Bartneriaeth wedi'i wneud yn ystod y 12 mis hyd 31 Mawrth 2023, mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol a'r Risg Hinsawdd, ac mae'n tynnu sylw at rai o'r prif feysydd. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn manylu ar rai meysydd lle nad yw gwaith wedi bwrw ymlaen dros y flwyddyn a'r meysydd posib ar gyfer gweithgarwch/gwelliannau dros 2023/24.

Os yw'r polisiâu yn cael eu cymeradwyo, byddant yn cael eu diweddarau ar wefan y Bartneriaeth.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol DIM	Cyllid DIM	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM
Mae Polisi Mae'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol a'r Polisi Pleidleisio yn ddogfennau ffurfiol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma.

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

MANYLIR AR Y RHAIN ISOD

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/ DOLEN GWEFAN